



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 2693 (Cy. 268)

2014 No. 2693 (W. 268)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a
Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2)
2014

The Town and Country Planning
(Compensation) (Wales) (No.2)
Regulations 2014

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi amryw faterion at ddibenion adran 108 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

These Regulations prescribe various matters for the purposes of section 108 of the Town and Country Planning Act 1990.

Mae adran 108 yn darparu ar gyfer digolledu drwy daliad mewn achosion penodol pan fo caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a roddwyd gan orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol yn cael ei dynnu'n ôl, a phan fo cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad hwnnw yn cael ei wrthod neu fod y caniatâd yn cael ei roi yn ddarostyngedig i amodau.

Section 108 provides for the payment of compensation in certain cases where planning permission for development granted by a development order or a local development order is withdrawn and where on an application for planning permission for that development, the application is refused or permission is granted subject to conditions.

Mae adran 108(2A) a (3B) i (3D) (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Caniatâd Cynllunio (Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu neu Orchymyn Datblygu Lleol) (Iawndal) (Cymru) 2012) (O.S. 2012/210 (Cy. 36)) yn galluogi cyfyngu ar yr amgylchiadau pan fo tâl digolledu yn daladwy.

Section 108(2A) and (3B) to (3D) (as amended by the Planning Permission (Withdrawal of Development Order or Local Development Order) (Compensation) (Wales) Order 2012) (S.I. 2012/210 (W. 36)) enable the circumstances in which compensation is payable to be limited.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r mathau o ddatblygiad at ddibenion adran 108(2A) a (3C) (rheoliad 2), y dull ar gyfer tynnu'n ôl ganiatâd cynllunio (rheoliad 3) a'r dull, a'r cyfnod hiraf, ar gyfer rhoi hysbysiad o dynnu'n ôl, dirymu, diwygio neu gyfarwyddydau (rheoliadau 4 a 5).

These Regulations prescribe types of development for the purposes of section 108(2A) and (3C) (regulation 2), the manner for withdrawing planning permission (regulation 3) and the manner, and maximum period, in which notice of withdrawal, revocation, amendment or directions is to be given (regulations 4 and 5).

Mae'r mathau rhagnodedig o ddatblygiad eisoes yn cynnwys datblygiad a ganiateir gan y rhannau canlynol o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (O.S. 1995/418) ("Gorchymyn 1995"): Rhan 1 (datblygu o fewn cwrtil tŷ annedd); Dosbarth A o Ran 8 (estyn neu addasu adeilad diwydiannol neu warws) a Dosbarth E (storfeydd sbwriel a beiciau o fewn cwrtil adeilad diwydiannol neu warws); Rhan 32 (ysgolion, colegau, prifysgolion ac ysbytai); Rhan 40 (gosod cyfarpar

The prescribed types of development already include development permitted by the following parts of Schedule 2 to the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995 (S.I. 1995/418) ("1995 Order"): Part 1 (development within the curtilage of a dwellinghouse); Class A of Part 8 (extension or alteration of an industrial building or warehouse) and Class E (refuse and cycle stores within the curtilage of an industrial building or warehouse);

microgynhyrchu domestig); Rhan 41 (swyddfeydd); Rhan 42 (siopau a sefydliadau gwasanaethau ariannol neu broffesiynol) a Rhan 43 (gosod cyfarpar microgynhyrchu annomestig).

Bellach mae'r mathau rhagnodedig o ddatblygiad hefyd yn cynnwys Rhan 24 (datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig (Cymru)) i'r graddau y mae paragraff A.2(4A) yn datgymhwyso'r amodau ym mharagraff A.3 o Ddosbarth A ac yn cymhwyso'r amodau ym mharagraff A.2(4B) o Ddosbarth A.

Effaith y Rheoliadau hyn yw, pan gaiff yr hawliau datblygu a ganiateir a nodir yn rheoliad 2 eu tynnu'n ôl gan gyfarwyddydau o dan adran 108(2A), nad yw tâl digolledu yn daladwy ond mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a wnaed o fewn 12 mis yn dechrau ar y dyddiad y daeth y cyfarwyddydau yn effeithiol.

Mae'r materion a ragnodir yn rheoliadau 3 a 4 yn ymwneud â chaniatâd cynllunio a roddir gan orchymyn datblygu ac yn darparu mecanwaith i'r hawliau datblygu a ganiateir a nodir yn rheoliad 2 gael eu tynnu'n ôl heb fod tâl digolledu yn daladwy, cyhyd â bod y gweithdrefnau rhagnodedig yn cael eu dilyn o ran y dull tynnu'n ôl, y dull o gyhoeddi'r tynnu'n ôl a'r cyfnod hiraf o hysbysiad y caniateir ei roi mewn perthynas â'r tynnu'n ôl. Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth debyg o ran tynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir a roddir gan orchymyn datblygu lleol.

Mae rheoliadau 3, 4 a 5 yn gwneud darpariaeth o ganlyniad i greu hawl datblygu a ganiateir ag iddi derfyn amser yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014, sy'n diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

Mae rheoliad 6 yn ddarpariaeth drosiannol.

Mae rheoliad 7 yn dirymu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/593 (Cy. 70)) sy'n cael eu hail-wneud yn sylweddol gyda diwygiadau.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae copïau ar gael gan Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk.

Part 32 (schools, colleges, universities and hospitals); Part 40 (installation of domestic microgeneration equipment); Part 41 (office buildings); Part 42 (shops and financial or professional services establishments) and Part 43 (installation of non-domestic microgeneration equipment).

The prescribed types of development now also include Part 24 (development by electronic communications code operators (Wales)) to the extent that paragraph A.2(4A) disappplies the conditions in paragraph A.3 of Class A and applies the conditions in paragraph A.2(4B) of Class A.

The effect of these Regulations is that when the permitted development rights identified in regulation 2 are withdrawn by directions under section 108(2A), compensation is only payable in respect of planning applications made within 12 months beginning on the date the directions took effect.

The matters prescribed in regulations 3 and 4 relate to planning permission granted by development order and provide a mechanism for the permitted development rights identified in regulation 2 to be withdrawn without compensation being payable, provided the prescribed procedures are followed as to the manner of withdrawal, the manner of publishing the withdrawal and the maximum period of notice that may be given in respect of withdrawal. Regulation 5 makes similar provision regarding withdrawal of permitted development rights granted by a local development order.

Regulations 3, 4 and 5 make provision consequential on the creation of a time-limited permitted development right in the Town and Country Planning (General Permitted Development) (Amendment) (Wales) (No.2) Order 2014, which amends the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995.

Regulation 6 is a transitional provision.

Regulation 7 revokes the Town and Country Planning (Compensation) (Wales) Regulations 2014 (S.I. 2014/593 (W. 70)) which are remade in substance with amendments.

A regulatory impact assessment has been prepared in relation to these Regulations. Copies are available from the Planning Division at the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk.

2014 Rhif 2693 (Cy. 268)

2014 No. 2693 (W. 268)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a
Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2)
2014

The Town and Country Planning
(Compensation) (Wales) (No.2)
Regulations 2014

Gwnaed 29 Medi 2014

Made 29 September 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 9 Hydref 2014

Laid before the National Assembly for Wales
9 October 2014

Yn dod i rym 7 Tachwedd 2014

Coming into force 7 November 2014

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 108 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 108 of the Town and Country Planning Act 1990(1) now exercisable by them(2) make the following Regulations:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

Title, commencement, application and interpretation

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2) 2014 a deuant i rym ar 7 Tachwedd 2014.

1.—(1) The title of these Regulations is the Town and Country Planning (Compensation) (Wales) (No.2) Regulations 2014 and they come into force on 7 November 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(3) In these Regulations—

(1) 1990 p. 8. Diwygiwyd adran 108 gan adran 13(3) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34), adran 40(2) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) a pharagraffau 1 a 6 o Atodlen 6 iddi, adran 189 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29), adran 63 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (p. 24) a pharagraffau 2 a 3 o Atodlen 17 iddi a Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (O.S. 2006/1281). Diwygiwyd is-adrannau 108(2A), (3C), (3D) a (6) gan Orchymyn Caniatâd Cynllunio (Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu neu Orchymyn Datblygu Lleol) (Iawndal) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/210) (Cy. 36)). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(2) Diwygiwyd adran 108(6) er mwyn rhoi swyddogaethau mewn perthynas â Chymru sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, gan Orchymyn Caniatâd Cynllunio (Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu neu Orchymyn Datblygu Lleol) (Iawndal) (Cymru) 2012.

(1) 1990 c. 8. Section 108 was amended by section 13(3) of the Planning and Compensation Act 1991 (c. 34), section 40(2) of, and paragraphs 1 and 6 of Schedule 6 to, the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c. 5), section 189 of the Planning Act 2008 (c. 29), section 63 of, and paragraphs 2 and 3 of Schedule 17 to, the Enterprise and Regulatory Reform Act 2013 (c. 24) and the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No.9 and Consequential Provisions) Order 2006 (S.I. 2006/1281). Subsections 108(2A), (3C), (3D) and (6) were amended by the Planning Permission (Withdrawal of Development Order or Local Development Order) (Compensation) (Wales) Order 2012 (S.I. 2012/210) (W. 36)). There are other amendments which are not relevant to this instrument.

(2) Section 108(6) was amended so as to confer functions in relation to Wales exercisable by the Welsh Ministers, by the Planning Permission (Withdrawal of Development Order or Local Development Order) (Compensation) (Wales) Order 2012.

ystyr “Atodlen 2” (“*Schedule 2*”) yw Atodlen 2 i Orchymyn 1995;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr “Gorchymyn 1995” (“*the 1995 Order*”) yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(1); ac

ystyr “Gorchymyn y Weithdrefn Rheoli Datblygu” (“*the DMPO*”) yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(2).

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Town and Country Planning Act 1990;

“the 1995 Order” (“*Gorchymyn 1995*”) means the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995(1);

“the DMPO” (“*Gorchymyn y Weithdrefn Rheoli Datblygu*”) means the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012(2); and

“Schedule 2” (“*Atodlen 2*”) means Schedule 2 to the 1995 Order.

Datblygiad rhagnodedig – caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu

2. At ddibenion paragraffau (2A)(a) a (3C)(a) o adran 108 o'r Ddeddf (digolledu pan gaiff gorchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol ei dynnu'n ôl), mae datblygiad o'r disgrifiad canlynol yn rhagnodedig—

- (a) datblygiad a ganiateir gan Ran 1 o Atodlen 2 (datblygiad o fewn cwrtil tŷ annedd)(3);
- (b) datblygiad a ganiateir gan Ddosbarthiadau A ac E o Ran 8 o Atodlen 2 (estyn neu addasu adeilad diwydiannol neu warws a chodi neu adeiladu storfa sbwriel neu feiciau o fewn cwrtil adeilad diwydiannol neu warws)(4);
- (c) Dosbarth A o Ran 24 (datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig (Cymru))(5) i'r graddau y mae paragraff A.2(4A) yn datgymhwyso'r amodau ym mharagraff A.3 o Ddosbarth A ac yn cymhwyso'r amodau ym mharagraff A.2(4B) o Ddosbarth A;
- (d) datblygiad a ganiateir gan Ran 32 o Atodlen 2 (ysgolion, colegau, prifysgolion ac ysbytai)(6);
- (e) datblygiad a ganiateir gan Ran 40 o Atodlen 2 (gosod cyfarpar microgynhyrchu domestig)(7);

Prescribed development – planning permission granted by development order

2. For the purposes of paragraphs (2A)(a) and (3C)(a) of section 108 of the Act (compensation where development order or local development order withdrawn), development of the following description is prescribed—

- (a) development permitted by Part 1 of Schedule 2 (development within the curtilage of a dwellinghouse)(3);
- (b) development permitted by Classes A and E of Part 8 of Schedule 2 (extension or alteration of an industrial building or a warehouse and erection or construction of a refuse or cycle store within the curtilage of an industrial building or warehouse)(4);
- (c) Class A of Part 24 (development by electronic communications code operators (Wales))(5) to the extent that paragraph A.2(4A) disappplies the conditions in paragraph A.3 of Class A and applies the conditions in paragraph A.2(4B) of Class A;
- (d) development permitted by Part 32 of Schedule 2 (schools, colleges, universities and hospitals)(6);
- (e) development permitted by Part 40 of Schedule 2 (installation of domestic microgeneration equipment)(7);

(1) O.S. 1995/418.

(2) O.S. 2012/801 (Cy. 110) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/755 (Cy. 90). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) Amnewidiwyd Rhan 1 mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2013/1776 (Cy. 177).

(4) Amnewidiwyd Rhan 8 mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2014/592 (Cy. 69).

(5) Amnewidiwyd Rhan 24 mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2002/1878 (Cy. 187) a'i diwygio gan O.S. 2003/2155 ac O.S. 2014/2692 (W.267).

(6) Amnewidiwyd Rhan 32 mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2014/592 (Cy. 69).

(7) Amnewidiwyd Rhan 40 mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2012/1346 (Cy.167).

(1) S.I. 1995/418.

(2) S.I. 2012/801 (W. 110) as amended by S.I. 2013/755 (W. 90). There are other amendments which are not relevant to these Regulations.

(3) Part 1 was substituted in relation to Wales by S.I. 2013/1776 (W. 177).

(4) Part 8 was substituted in relation to Wales by S.I. 2014/592 (W. 69).

(5) Part 24 was substituted in relation to Wales by S.I. 2002/1878 (W. 187) and amended by S.I. 2003/2155 and S.I. 2014/2692 (W.267)

(6) Part 32 was substituted in relation to Wales by S.I. 2014/592 (W. 69).

(7) Part 40 was substituted in relation to Wales by S.I. 2012/1346 (W. 167).

- (f) datblygiad a ganiateir gan Ran 41 o Atodlen 2 (swyddfeydd)(1);
- (g) datblygiad a ganiateir gan Ran 42 o Atodlen 2 (siopau, sefydliadau gwasanaethau ariannol neu broffesiynol)(2); a
- (h) datblygiad a ganiateir gan Ran 43 o Atodlen 2 (gosod cyfarpar microgynhyrchu annomestig)(3).

- (f) development permitted by Part 41 of Schedule 2 (office buildings)(1);
- (g) development permitted by Part 42 of Schedule 2 (shops, financial or professional services establishments)(2); and
- (h) development permitted by Part 43 of Schedule 2 (installation of non-domestic microgeneration equipment)(3).

Dull rhagnodedig o dynnu'n ôl ganiatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu

3. At ddibenion adran 108(3C)(b) o'r Ddeddf, y dull rhagnodedig ar gyfer tynnu'n ôl ganiatâd cynllunio yw—

- (a) drwy gyfarwyddyd yn unol ag erthyglau 4(4), 4(4), 5 a (fel y bo'n briodol) 6 o Orchymyn 1995; neu
- (b) drwy ddarparu mewn gorchymyn datblygu fod caniatâd cynllunio—
 - (i) am gyfnod cyfyngedig; neu
 - (ii) yn cael ei dynnu'n ôl ar ôl dyddiad a bennir yn y gorchymyn.

Prescribed manner for withdrawing planning permission granted by development order

3. For the purposes of section 108(3C)(b) of the Act, the prescribed manner for withdrawing planning permission is—

- (a) by direction in accordance with articles 4(4), 5 and (as appropriate) 6 of the 1995 Order; or
- (b) by providing in a development order that planning permission—
 - (i) is for a limited period; or
 - (ii) is withdrawn after a date specified in the order.

Hysbysiad o'r tynnu'n ôl - y dull cyhoeddi a'r cyfnod rhagnodedig ar gyfer gorchymynion datblygu

4.—(1) At ddibenion adran 108(3C)(c) o'r Ddeddf, mae'r materion canlynol yn rhagnodedig.

(2) Y dull rhagnodedig ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o'r tynnu'n ôl yw—

- (a) y dull a ddisgrifir yn erthyglau 5 a (fel y bo'n briodol) 6 o Orchymyn 1995; neu
- (b) drwy ddarparu mewn gorchymyn datblygu fod caniatâd cynllunio—
 - (i) am gyfnod cyfyngedig; neu
 - (ii) yn cael ei dynnu'n ôl ar ôl dyddiad a bennir yn y gorchymyn datblygu.

(3) Y cyfnod rhagnodedig yw—

- (a) 24 mis; neu

Notice of the withdrawal - prescribed manner of publication and period for development orders

4.—(1) For the purposes of section 108(3C)(c) of the Act the following matters are prescribed.

(2) The prescribed manner in which notice of the withdrawal is to be published is—

- (a) in the manner described in articles 5 and (as appropriate) 6 of the 1995 Order; or
- (b) by providing in a development order that planning permission—
 - (i) is for a limited period; or
 - (ii) is withdrawn after a date specified in the development order.

(3) The prescribed period is—

- (a) 24 months; or

(1) Mewnosodwyd Rhan 41 mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2014/592 (Cy. 69).
 (2) Mewnosodwyd Rhan 42 mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2014/592 (Cy. 69).
 (3) Mewnosodwyd Rhan 43 mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2012/2318 (Cy. 252).
 (4) Diwygiwyd erthygl 4 gan O.S. 1996/528, O.S. 2006/124 (Cy. 17), O.S. 2006/1386 (Cy. 136) ac O.S. 2013/1776 (Cy. 177).

(1) Part 41 was inserted in relation to Wales by S.I. 2014/592 (W. 69).
 (2) Part 42 was inserted in relation to Wales by S.I. 2014/592 (W. 69).
 (3) Part 43 was inserted in relation to Wales by S.I. 2012/2318 (W. 252).
 (4) Article 4 was amended by S.I. 1996/528, S.I. 2006/124 (W. 17), S.I. 2006/1386 (W. 136) and S.I. 2013/1776 (W. 177).

- (b) pan fo hysbysiad o'r tynnu'n ôl yn cael ei gyhoeddi yn unol â pharagraff (2)(b), 5 mlynedd.

Hysbysiad o'r tynnu'n ôl – y dull a'r cyfnod rhagnodedig ar gyfer gorchmynion datblygu lleol

5.—(1) At ddibenion adran 108(3D)(c) o'r Ddeddf, mae'r materion canlynol yn rhagnodedig.

(2) Y dull rhagnodedig ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o ddirymu, diwygio neu gyfarwyddydau yw—

- (a) y dull a ddisgrifir ym mharagraffau (7) ac (8) o erthygl 27 o Orchymyn y Weithdrefn Rheoli Datblygu; neu
- (b) pan fo gorchymyn datblygu lleol yn rhoi caniatâd cynllunio am gyfnod cyfyngedig, neu'n darparu bod caniatâd cynllunio yn cael ei dynnu'n ôl ar ôl dyddiad a bennir yn y gorchymyn datblygu lleol, drwy roi copi o'r gorchymyn datblygu lleol hwnnw yn yr adran briodol o'r gofrestr a gedwir gan yr awdurdod cynllunio lleol yn unol ag erthygl 29 o Orchymyn y Weithdrefn Rheoli Datblygu.

(3) Y cyfnod rhagnodedig yw—

- (a) 24 mis; neu
- (b) pan fo hysbysiad o'r tynnu'n ôl yn cael ei gyhoeddi'n unol â pharagraff (2)(b), 5 mlynedd.

Darpariaeth drosiannol

6. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw dynnu'n ôl o ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o ddisgrifiad a ragnodir yn rheoliad 2(d) pan fo, cyn 18 Mehefin 2012, naill ai—

- (a) hysbysiad o'r cyfarwyddyd yn tynnu'n ôl y caniatâd hwnnw wedi cael ei roi yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn 1995; neu
- (b) y cyfarwyddyd yn un y mae erthygl 6 o Orchymyn 1995 (hysbysiad a chadarnhad o gyfarwyddydau erthygl 4(2)) yn gymwys iddo a bod y cyfarwyddyd wedi dod i rym.

Dirymu

7. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) 2014(1) wedi eu dirymu.

- (b) where notice of withdrawal is published in accordance with paragraph (2)(b), 5 years.

Notice of withdrawal – prescribed manner and period for local development orders

5.—(1) For the purposes of section 108(3D)(c) of the Act the following matters are prescribed.

(2) The prescribed manner for publication of notice of the revocation, amendment or directions is—

- (a) in the manner described in paragraphs (7) and (8) of article 27 of the DMPO; or
- (b) where a local development order grants planning permission for a limited period, or provides that planning permission is withdrawn after a date specified in the local development order, by placing a copy of that local development order in the appropriate section of the register kept by the local planning authority in accordance with article 29 of the DMPO.

(3) The prescribed period is—

- (a) 24 months; or
- (b) where notice of withdrawal is published in accordance with paragraph (2)(b), 5 years.

Transitional provision

6. These Regulations do not apply in relation to any withdrawal of planning permission for development of a description prescribed in regulation 2(d) where, before 18 June 2012, either—

- (a) notice of the direction withdrawing that permission has been given in accordance with article 5 of the 1995 Order; or
- (b) the direction is one to which article 6 of the 1995 Order (notice and confirmation of article 4(2) directions) applies and the direction has come into force.

Revocation

7. The Town and Country Planning (Compensation) (Wales) Regulations 2014 are revoked(1).

(1) O.S. 2014/593 (Cy. 70).

(1) S.I. 2014/593 (W. 70).

Carl Sargeant

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion
Cymru

29 Medi 2014

© 2014 Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Natural Resources, one of the Welsh
Ministers

29 September 2014

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 2693 (Cy. 268)

2014 No. 2693 (W. 268)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a
Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2)
2014

The Town and Country Planning
(Compensation) (Wales) (No.2)
Regulations 2014

£6.00

W2101/10/14

ON

ISBN 978-0-348-10997-9



9 780348 109979